



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Y Gwir Anrh Sajid Javid AS
Ysgrifennydd Cartref
2 Stryd Marsham
Llundain
SW1P 4DF

27 Mehefin 2019

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

YNGHYLCH: Archwiliad Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL) Integredig Heddlu Dyfed-Powys 2018/19

Fel rydych yn gwybod, fel un o'r ardaloedd Heddlu cyntaf i ymgymryd ag archwiliad dan y drefn Asesiad PEEL Integredig newydd, rwyf wedi mynegi rhai pryderon ynghylch y fethodoleg a'r modd y cyrhaeddir at ddyfarniadau cyffredinol yr Arolygiaeth. O ganlyniad i fy nealltwriaeth helaeth o'r modd y mae'r Heddlu'n perfformio o ddydd i ddydd, rwyf yn hyderus fod y frawddeg ar dudalen 10 adroddiad Dyfed-Powys yn grynodedb cywir o'u perfformiad cyffredinol:

"Cawsom fod Heddlu Dyfed-Powys yn dda am ostwng trosedd a chadw pobl yn ddiogel."

Er nad wyf i na'r Prif Gwnstabl yn gwadu bod angen gwelliannau mewn meysydd penodol, rwyf yn hyderus fod yr Heddlu eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gweithredu ar rai o'r diffygion a nodwyd o fewn yr adroddiad.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi cadarnhau mai Cam-drin Domestig yw ei flaenoriaeth bennaf ar gyfer 2019/20, fel y dangoswyd gan gyflwyniad cyflym "Desg Unigolion Agored i Niwed" yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu a hyfforddiant "Mae Cam-drin Domestig o Bwys / DA Matters" i bob swyddog ac aelod staff rheng flaen. Mae'r Heddlu wedi adrodd am welliannau sylweddol o ran cydymffurfio ag asesu risg Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu ers cyflawni'r newidiadau. Bydd fy staff yn parhau i fonitro'r datblygiadau'n agos er mwyn sicrhau bod yr asesiadau risg gwell yn arwain at well canlyniadau i ddiodefwr. Mae peth o'r gwaith monitro hwn yn cael ei gyflawni drwy waith fy Mhanel Sicrhau Ansawdd, presenoldeb fy staff yng nghyfarfodydd llywodraethu allweddol yr Heddlu a thrwy fy nghyfarfodydd dal i gyfrif rheolaidd gyda'r Prif Gwnstabl.

Mae'r Heddlu yn y broses o weithredu model plismona bro newydd, a fydd yn cael ei lansio ym mis Medi 2019; cam yr wyf yn hyderus a fydd yn canolbwyntio sylw'r Heddlu o'r newydd ar ymgysylltu cymunedol hanfodol ac yn gwella hyder y cyhoedd. Bydd y newidiadau hefyd yn arwain at welliannau sydd mawr eu hangen o ran gallu goruchwyllo a sicrhau ansawdd yr Heddlu.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

Rwyf ers hir amser wedi cydnabod bod angen i Heddlu Dyfed-Powys ddatblygu eu dealltwriaeth o'r galw ar eu gwasanaethau. Mae'r Prif Gwnstabl hefyd yn cydnabod hyn, fel y dangoswyd yn ei Ddatganiad Rheoli'r Heddlu diweddaraf, lle nodir rhagweld galw yn gyson fel maes anhawster ar gyfer meysydd busnes. O ganlyniad, mae'r Heddlu ar hyn o bryd yn ymgymryd ag arolwg o'r galw a strwythurau timau gwelliant parhaus er mwyn sicrhau eu bod yn fwy abl i ddefnyddio'u mewnwelediadau i lywio gwaith cynllunio busnes allweddol a dyrannu adnoddau. Mae'n hollbwysig fod gwaith rhagfynegi galw a chynllunio'r Heddlu'n gwella, ac mae Prif Swyddogion yn ymwybodol fod hyn yn un o fy mlaenoriaethau craffu eleni. Rwyf wedi ei gwneud yn glir y byddaf yn edrych am ragfynegiadau manwl yn yr hydref er mwyn sicrhau fy mod yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth lawn wrth osod praesept y dreth gyngor ar gyfer 2020/21.

Rwyf yn siomedig bod yr Heddlu wedi eu hisraddio o ran Cyfreithlondeb, a rhaid i mi bwysleisio fod yr Arolygiaeth wedi rhoi gwybod i mi fod hyn o ganlyniad i gwestiwn unigol ynghylch canfyddiadau'r gweithlu ynghylch y modd y mae'r Heddlu'n trin ei staff. Nid oes gennyf yr un rheswm i gredu bod yr Heddlu'n trin ei staff yn annheg, fodd bynnag cydnabyddir bod yn rhaid ymdrin â chanfyddiadau drwy gyfathrebu mewn modd sy'n cyrraedd pob aelod staff. Rwyf yn hyderus bod y Tîm Uwch Swyddogion yn gwneud pob peth posibl, drwy eu sioeau teithiol a chyfathrebu mewnol, i fynd i'r afael ag unrhyw gamdybiaethau. Nid oes unrhyw dystiolaeth ychwaith i awgrymu fod y cyhoedd a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys yn credu bod yr Heddlu'n eu trin yn annheg nac yn afresymol. Mae fy ngweithgarwch craffu'n parhau i ddarganfod enghreifftiau o swyddogion yn mynd y tu hwnt i ofynion eu swydd i sicrhau bod pob aelod o gymdeithas yn derbyn triniaeth gymesur ac urddasol pan fyddant yn dod i gysylltiad â'r Heddlu.

Mae gennyf bob hyder fod Heddlu Dyfed-Powys yn gwneud pob peth a fedrant i drosglwyddo gwasanaeth rhagorol i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu ac rwyf yn rhagweld gwelliannau pellach o ran perfformiad dros y flwyddyn i ddod.

Ceir copi o'r ymateb hwn ar fy [ngwefan](#).

Yn gywir



Dafydd Llywelyn
Comisiynydd Heddlu a Throseddau

Cc: AEI Wendy Williams

Y Prif Gwnstabl Mark Collins